

RHEOLAU CYFFREDINOL YR EISTEDDFOD

1. Bydd hawl gan bob Clwb i gystadlu mewn uchafswm o 12 o gystadlaethau llwyfan + cystadleuaeth Unawd 13 oed neu iau, Llefaru 13 oed neu iau a chystadleuaeth Canu Emyr Nofis ar y dydd Sadwrn (sy'n gyfyngedig i'r Sir yn unig) a'r adran gwaith cartref.
2. Dau gystadleuydd o bob Clwb ym mhob cystadleuaeth, ac un parti ym mhob cystadleuaeth partion. (Deuawd yn cyfri fel Parti).
3. Parti Deusain/Llefaru- Dim mwy na 16 aelod 26 oed neu iau.
4. **Côr** - Caniateir i 10 aelod dros 26 oed i gynorthwyo'r Côr a hefyd un arweinydd a chyfeilydd ychwanegol.
Hawl cael 2 glwb i ymuno i greu côr ond ni fyddant yn derbyn pwyntiau am hyn, mi fydd hon wedyn yn gystadleuaeth ychwanegol i'r clybiau hynny sydd yn ymuno.
5. Gall clybiau ddod a chyfeilydd eu hunain os y dymunant.
6. Os na fydd cystadleuydd yn bresennol pan elwir ei enw ni chaniateir iddo gystadlu.
7. Bydd y Beirniaid a'r Trefnydd Sir yn dewis 15 cystadleuaeth orau allan o'r cystadlaethau llwyfan i fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Cymru.
8. Bydd y Gadair yn yr Eisteddfod eleni yn cael ei chyflwyno i'r gystadleuaeth i'r Gerdd Orau â Choron yn cael ei gyflwyno i'r Rhyddiaith Orau. Bydd enillwyr y cystadlaethau Gwaith Cartref yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru.
9. Marciau fel a ganlyn :

Unigolion	1af-4	2il-3	3ydd-2	Rhoddir 1 marc am gysatdlu
Timau	1af-7	2il-5	3ydd-3	Rhoddir 1 marc am gystadlu
Corau	1af-10	2il-8	3ydd-6	Rhoddir 2 marc am gystadlu
10. Rhaid i bob cystadleuydd wneud yn siwr fod copi o'u darn adrodd/canu yn llaw'r beirniad cyn y gystadleuaeth.
11. Cosbiadau Amser - yn gymwys i bob cystadleuaeth sydd a chyfyngiadau amser. Tynnir 1 pwynt i ffwrdd am bob 15 eiliad neu ran o'r amser hwnnw sydd dros yr amser penodedig.
12. Gwnewch pob ymdrech i sicrhau fod pob un sydd a'i enw ar y ffurflen gais yn cystadlu ar ddiwrnod yr Eisteddfod. **Pwysig!! Fe gosbir clybiau os byddant yn tynnu allan o gystadleuaeth. Bydd y clybiau yn colli 1 pwynt yr eitem oddi ar farciau terfynol y Clwb.**
13. Nid oes hawl gan yr un aelod i gystadlu ddwywaith yn yr un gystadleuaeth, ond ar wahan i hynny nid oes cyfyngder ar y nifer o gystadlaethau y gall aelod gystadlu ynddynt.
14. Ni chaniateir defnyddio yr un darn ag y gwnaethoch ei ddefnyddio i gystadlu y llynedd.
15. Ni chaniateir perfformio yr un darn mewn dwy gystadleuaeth.
16. Ni chaniateir llungopio darnau oherwydd hawlfraint.
17. **Pwysig!** Os ydych am i'r cyfeilyddion swyddogol chwarae i chi yn yr Eisteddfod, mae'n RHAID i ni dderbyn copi o'r cyfeiliant i'r Swyddfa erbyn Dydd Mercher, 16eg o Hydref!
18. Dim ond mewn un categori oedran y gall aelod gystadlu yn unigol.
19. Caniateir 2 bennill yn unig yn y Canu Emyr a'r Canu Emyr Nofis.